OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 1368 (Cy.118)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Coleg Gŵyr Abertawe (Corffori) 2010

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn sefydlu corfforaeth addysg bellach a elwir "Coleg Gŵyr Abertawe" o dan adran 16(1)(a) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 ("y Ddeddf") at y diben o redeg y sefydliad addysgol sydd â'r un enw. Mae'r Gorchymyn hefyd yn darparu ar gyfer pennu 20 Awst 2010 yn ddyddiad gweithredu at ddibenion Rhan 1 o'r Ddeddf, sef y dyddiad y bydd Coleg Gŵyr Abertawe yn ymgymryd â rhedeg, o hynny ymlaen, y sefydliad addysgol o'r un enw.

Mae drafft a chrynodeb o'r Gorchymyn hwn wedi eu cyhoeddi yn unol ag adran 51(3) o'r Ddeddf a Rheoliadau Corfforaethau Addysg Bellach (Cyhoeddi Gorchmynion Drafft) (Cymru) 2007.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2010 No. 1368 (W.118)

# EDUCATION, WALES

## The Gower College Swansea (Incorporation) Order 2010

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

This Order establishes a further education corporation called "Gower College Swansea" under section 16(1)(a) of the Further and Higher Education Act 1992 ("the Act") for the purpose of conducting the educational institution of the same name. The Order also provides for the appointment of 20 August 2010 as the operative date for the purposes of Part 1 of the Act, being the date from which Gower College Swansea is to conduct the educational institution of the same name.

A draft and summary of this Order have been published in accordance with section 51(3) of the Act and the Further Education Corporations (Publication of Draft Orders) (Wales) Regulations 2007.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 1368 (Cy.118)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Coleg Gŵyr Abertawe (Corffori) 2010

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *25 Ebrill 2010* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *29 Ebrill 2010* |
| *Yn dod i rym* | *20 Mai 2010* |

Gwneir y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 16(1)(a) ac 17 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(**1**) ("y Ddeddf") ac sy'n arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru(**2**).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2010 No. 1368 (W.118)

# EDUCATION, WALES

## The Gower College Swansea (Incorporation) Order 2010

| | |
|---|---|
| *Made* | *25 April 2010* |
| *Laid before the National Assembly for Wales* | *29 April 2010* |
| *Coming into force* | *20 May 2010* |

This Order is made in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 16(1)(a) and 17 of the Further and Higher Education Act 1992(**1**) ("the Act") and now exercisable by the Welsh Ministers(**2**).

(**1**) 1992 p.13; diwygiwyd adran 16 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 gan adran 140(3) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ac Atodlen 31 i'r Ddeddf honno; gan adran 111(1) o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 (p.21); a gan adran 14 o Ddeddf Addysg Bellach a Hyfforddi 2007 (p.25) ond adeg gwneud y Gorchymyn hwn nid oedd y ddarpariaeth honno wedi ei chychwyn. Diwygiwyd adran 17 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 gan adran 44(1) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (p.30) a pharagraff 7 o Atodlen 3 i'r Ddeddf honno; a gan adran 14 o Ddeddf Addysg Bellach a Hyfforddi 2007 ond adeg gwneud y Gorchymyn hwn nid oedd y ddarpariaeth honno wedi ei chychwyn.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 16(1)(a) ac 17 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S.1999/672) ac Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwnnw. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**1**) 1992 c.13; section 16 of the Further and Higher Education Act 1992 was amended by section 140(3) of and Schedule 31 to the School Standards and Framework Act 1998; by section 111(1) of the Learning and Skills Act 2000 (c.21); and by section 14 of the Further Education and Training Act 2007 (c.25) but at the time of making this Order that provision had not been commenced. Section 17 of the Further and Higher Education Act 1992 was amended by section 44(1) of and paragraph 7 of Schedule 3 to the Teaching and Higher Education Act 1998 (c.30); and by section 14 of the Further Education and Training Act 2007 but at the time of making this Order that provision had not been commenced.

(**2**) The functions of the Secretary of State under sections 16(1)(a) and 17 of the Further and Higher Education Act 1992 were transferred to the National Assembly for Wales by virtue of article 2 of and Schedule 1 to the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I.1999/672). The functions of the National Assembly for Wales were transferred to the Welsh Ministers by virtue of paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32).

Mae Gweinidogion Cymru wedi cyhoeddi drafft a chrynodeb o'r Gorchymyn hwn yn unol ag adran 51(3)(**1**)(**2**) o'r Ddeddf a Rheoliadau Corfforaethau Addysg Bellach (Cyhoeddi Gorchmynion Drafft) (Cymru) 2007(**3**).

Yn unol â hynny, mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

**Enwi a chychwyn**

**1**. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Coleg Gŵyr Abertawe (Corffori) 2010 a daw i rym ar 20 Mai 2010.

**Corfforaeth Newydd**

**2**. Ar 20 Mai 2010 sefydlir corff corfforaethol o'r enw Coleg Gŵyr Abertawe, at ddibenion sefydlu a rhedeg, o'r dyddiad gweithredu ymlaen, sefydliad addysgol newydd o'r un enw.

**Dyddiad gweithredu**

**3**. Y dyddiad gweithredu a bennwyd mewn perthynas â Coleg Gŵyr Abertawe yw 20 Awst 2010, a bydd y gorfforaeth yn rhedeg y sefydliad addysgol Coleg Gŵyr Abertawe o'r dyddiad hwnnw ymlaen.

The Welsh Ministers have published a draft and summary of this Order in accordance with section 51(3)(**1**)(**2**) of the Act and the Further Education Corporations (Publication of Draft Orders) (Wales) Regulations 2007(**3**).

Accordingly, the Welsh Ministers make the following Order:

**Title and commencement**

**1**. The title of this Order is the Gower College Swansea (Incorporation) Order 2010 and it comes into force on 20 May 2010.

**New Corporation**

**2**. On 20 May 2010 a body corporate called Gower College Swansea is to be established, for the purposes of establishing and conducting from the operative date a new educational institution of the same name.

**Operative date**

**3**. The operative date appointed in relation to Gower College Swansea is 20 August 2010, and the corporation is to conduct the educational institution of Gower College Swansea from that date.

*Leighton Andrews*

Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, un o Weinidogion Cymru

25 Ebrill 2010

Minister for Children, Education and Lifelong Learning, one of the Welsh Ministers

25 April 2010

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2010

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2010

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

(**1**) Diwygiwyd adran 51(3) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 gan erthygl 9(1) o Orchymyn Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu'r Cyngor) 2005 (O.S.2005/3238 (Cy. 243)) a pharagraffau 13 a 21 o Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwnnw; gan adran 111(2)(a) o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000; a gan adran 16(1) a (3) o Ddeddf Addysg Bellach a Hyfforddi 2007 ond adeg gwneud y Gorchymyn hwn nid oedd y ddarpariaeth honno wedi ei chychwyn.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 51(3) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, ac Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwnnw. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

(**3**) O.S. 2007/854 (Cy. 78).

(**1**) Section 51(3) of the Further and Higher Education Act 1992 was amended by article 9(1) of and paragraphs 13 and 21 of Schedule 1 to the National Council for Education and Training for Wales (Transfer of Functions to the National Assembly for Wales and Abolition) Order 2005 (S.I.2005/3238 (W.243)); by section 111(2)(a) of the Learning and Skills Act 2000; and by section 16(1) and (3) of the Further Education and Training Act 2007 but at the time of making this Order that provision had not been commenced.

(**2**) The functions of the Secretary of State under section 51(3) of the Further and Higher Education Act 1992 were transferred to the National Assembly for Wales by virtue of article 2 of and Schedule 1 to the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999. The functions of the National Assembly for Wales were transferred to the Welsh Ministers by virtue of paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006.

(**3**) S.I. 2007/854 (W.78).

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

**2010 Rhif 1368 (Cy.118)**

**ADDYSG, CYMRU**

Gorchymyn Coleg Gŵyr Abertawe (Corffori) 2010

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

**2010 No. 1368 (W.118)**

**EDUCATION, WALES**

The Gower College Swansea (Incorporation) Order 2010

£4.00

W689/05/10 ON